Appendix 1

Datganiad Caethwasiaeth Fodern Adolygiad Blynyddol 2019-2020

Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn darparu ystod eang o wasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu darparu'n uniongyrchol trwy ein gweithlu ein hun, a thrwy nifer fawr o gyflenwyr a chontractwyr.

Yn 2018, fe ymrwymodd y Cyngor i God Ymarfer Llywodraeth Cymru: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi. Mae'r Datganiad hwn yn nodi'r gweithredoedd y mae'r Cyngor wedi'u cymryd ac y bydd yn eu cymryd, i sicrhau nad oes Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Mewn Pobl yn ei fusnes na chadwyni cyflenwi.

Beth ydi Caethwasiaeth Fodern?

Yn y DU, mae Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 yn diffinio caethwasiaeth, caethwasanaeth a llafur gorfodol neu dan orfodaeth a masnachu mewn pobl yn droseddau, ac mae'n cynnwys mesurau i amddiffyn dioddefwyr posibl.

Mae'r term Caethwasiaeth Fodern yn cynnwys ystod eang o fathau o gam-fanteisio, llawer ohonynt yn digwydd gyda'i gilydd. Mae unigolyn yn cael ei adnabod fel rhywun sydd mewn caethwasiaeth os yw:

- yn cael eu gorfodi i weithio – drwy fygythiad meddyliol neu gorfforol
- dan berchnogaeth neu reolaeth gan 'gyflogwr', fel arfer drwy gam-drin meddyliol neu gorfforol neu fygythiad o gam-drin
- yn cael eu ddat-ddynoli, yn cael eu trin fel nwydd neu'n cael eu prynu a'u gwerthu fel 'eiddo'
- wedi eu cyfyngu yn gorfforol neu â chyfyngiadau ar eu rhyddid i symud.

Ein cadwyni cyflenwi

Mae'r Cyngor yn gwario dros £150 miliwn yn flynyddol gyda nifer fawr o gyflenwyr sydd yn darparu ystod eang o nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ein cadwyni cyflenwi yn ymestyn ar draws y byd, ac y gallai rhannau o'r gadwyn gyflenwi ymwneud â chaethwasiaeth fodern. Dim ond adnoddau cyfyngedig sydd gan y Cyngor i fonitro a rheoli ein cadwyni cyflenwi felly bydd yn canolbwyntio ar ein cyflenwyr uniongyrchol a byddwn yn gofyn i'n cyflenwyr sicrhau bod eu cadwyn gyflenwi yn rhydd rhag caethwasiaeth fodern.

Y sectorau sydd â risg uchel o Gaethwasiaeth Fodern ydi amaethyddiaeth, hamdden, lletygarwch, arlwyo, glanhau, dillad, adeiladu a gweithgynhyrchu. Mae adolygiad o wariant y Cyngor wedi dangos bod y Cyngor yn darparu'r gwasanaeth yn fewnol ar gyfer y mwyafrif o ardaloedd

Modern Slavery Statement 2019-2020 Annual Report

Introduction

Wrexham County Borough Council delivers a wide range of public services, provided directly through our own workforce, and through a large number of suppliers and contractors.

In 2018 the Council signed up to the Welsh Government's Code of Practice: Ethical Employment in Supply Chains. This Statement sets out the action that the Council has taken, and will take, to ensure that there is no Modern Slavery and Human Trafficking in its own business or supply chains.

What is Modern Slavery?

In the UK, the Modern Slavery Act 2015 defines criminal offences of slavery, servitude and forced or compulsory labour and of human trafficking, and includes measures for the protection of potential victims.

The term Modern Slavery captures a whole range of types of exploitation, many of which occur together. Someone is in slavery if they are:

- Forced to work - through mental or physical threat
- Owned or controlled by an 'employer', usually through mental or physical abuse or the threat of abuse
- Dehumanised, treated as a commodity or bought and sold as 'property'
- Physically constrained or has restrictions placed on his/her freedom of movement.

Our supply chains

The Council spends over £150 million annually with a vast number of suppliers who provide a broad range of goods, services and works. The Council recognises that our supply chains spread across the world, and that parts of the supply chain could be engaged in modern slavery. The Council has limited resources to monitor and manage our supply chains and so will focus on our direct suppliers and will require our suppliers to ensure that their supply chain is free from modern slavery.

The high-risk sectors for Modern Slavery include agriculture, leisure, hospitality, catering, cleaning, clothing, construction and manufacturing. A review of Council spend has shown that for the majority of the high-risk areas the Council provides the service in-house, utilises national

risg uchel, ac yn defnyddio fframweithiau a chyflenwyr cenedlaethol sydd wedi'u caffael trwy brosesau ffurfiol yn unol â Rheolau Gweithdrefn Gontractau y Cyngor. Mae'r risg o gaethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl gan ein cyflenwyr uniongyrchol yn cael ei ystyried yn isel.

Bydd y cyngor yn sicrhau bod ein cyflenwyr uniongyrchol yn ymwybodol o'n hymrwymiad i drechu caethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl ac yn deall eu rhwymedigaethau fel cyflenwr neu gontractwr i'r Cyngor.

Bydd pob gwahoddiad i dendro am fusnes gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn annog cyflenwyr i gytuno i God Ymddygiad Llywodraeth Cymru: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.

Ein Polisïau

Mae **Strategaeth Comisiynu, Caffael a Rheoli Contract 2018-2021** y Cyngor yn gosod gweledigaeth glir ac yn adnabod y prif egwyddorion er mwyn seilio gweithgareddau arnynt. Mae hyn yn cynnwys cyflawni'r Cod Ymarfer a chael gwared ar Gaethwasiaeth Fodern.

Mae'r **Polisi Rhannu Pryderon** yn galluogi staff y Cyngor a gweithiwyr contractwr/cyflenwyr y Cyngor i roi gwybod am arferion cyflogaeth anfoesol.

Mae **Cod Ymddygiad Gweithwyr** yn nodi'n glir beth yw'r gweithredoedd ac ymddygiad a ddisgwylir ganddynt wrth gynrychioli'r Cyngor. Wrth gyflawni eu dyletswyddau, rhaid iddynt weithredu yn gywir, yn onest, yn ddiduedd ac yn wrthrychol. Mae'r sefydliad yn ceisio cynnal y safonau uchaf o ymddygiad gweithwyr ac ymddygiad moesol yn ei holl weithredoedd ac wrth reoli ein cadwyn gyflenwi.

Polisi Recriwtio – nod y Cyngor bob amser ydi penodi'r unigolyn sydd fwyaf addas ar gyfer y swydd benodol. Mae gan y Cyngor brosesau recriwtio cadarn, sydd yn cynnwys gwirio dogfennau i sicrhau fod gan ymgeiswyr hawl i weithio yn y DU.

Gweithwyr asiantaeth - mae'r Cyngor yn penodi ei holl weithwyr asiantaeth a staff dros dro trwy Matrix SCM sydd yn ddarparwr gwasanaeth a reolir. Mae eu Datganiad Caethwasiaeth Fodern yn cynnwys agwedd o ddim goddefgarwch tuag at gaethwasiaeth fodern.

Mae **Polisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor** yn dwyn ynghyd prif feysydd o ddiogelu, er mwyn sicrhau bod y broses o roi gwybod am gaethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl a chefnogaeth i ddioddefwyr yn cael ei brif ffrydio mewn systemau a phrosesau diogelu.

Hyfforddiant Gweithwyr

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant wedi'i deilwra i'n gweithwyr er mwyn codi ymwybyddiaeth am gaethwasiaeth fodern, cam-drin hawliau dynol a chosbrestru. Mae hyfforddiant corfforaethol wedi'i gynnwys yn rhan o'r rhaglen hyfforddiant corfforaethol.

frameworks and suppliers who have been procured through formal processes in accordance with the Council's Contract Procedure Rules. The risk of modern slavery and human trafficking by our direct suppliers is considered low.

The Council will ensure that our direct suppliers are aware of our commitment to tackle modern slavery and human trafficking and understand their obligations as a supplier or contractor of the Council.

All invitations to tender for business with Wrexham County Borough Council will encourage suppliers to sign up to the Welsh Government's Code of Practice: Ethical Employment in Supply Chains.

Our Policies

The Council's **Commissioning Procurement and Contract Management Strategy 2018-2021** sets a clear vison and identifies the key principles against which activities will be based upon. This includes delivery of the Code of Practice and the elimination of Modern Slavery.

The **Whistleblowing Policy** enables Council staff and employees of the Council's contractors / suppliers to report unethical employment practices to the Council.

Employee Code of Conduct makes it clear to employees the actions and behaviour expected of them when representing the Council. In performing their duties, they must act with integrity, honesty, impartiality and objectivity. The organisation strives to maintain the highest standards of employee conduct and ethical behaviour in all its operations and when managing our supply chain.

Recruitment policy - the Council aims at all times to recruit the person who is most suited to the particular job. The Council has robust recruitment processes, which includes document checks to ensure that candidates are allowed to work in the UK.

Agency workers – the Council sources all agency workers and temporary staff via Matrix SCM who are a managed service provider whose Modern Slavery Statement sets out their zero tolerance approach to modern slavery.

The **Council's Corporate Safeguarding Policy** brings together key areas of safeguarding, so that modern slavery and human trafficking reporting and support for victims is mainstreamed in safeguarding systems and processes.

Employee training

The Council is committed to developing and delivering tailored training to our employees in order to raise awareness of modern slavery, human rights abuses and blacklisting. Corporate training is included as part of the corporate training programme.

Yn ystod 2018-2019, rydym wedi:

Arwyddo'r Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi

- Wedi dechrau ar y broses o adolygu ein cadwyni cyflenwi er mwyn adnabod ardaloedd o risg uchel
- Wedi dechrau adolygiad o gymalau contract a thendr
- Wedi sicrhau bod ein Polisi Rhannu Pryderon yn addas i'r diben
- Wedi darparu hyfforddiant ar Gaethwasiaeth Fodern yn unol â Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Corfforaethol gan gynnwys datblygu modiwl e-ddysgu rhanbarthol
- Wedi llunio cynllun Cyfathrebu a Diogelu Corfforaethol sydd yn cynnwys codi ymwybyddiaeth am Gaethwasiaeth Fodern
- Wedi sefydlu caffael moesol yn ein hasesiad cyn-gymhwyso o gyflenwyr
- Wedi adolygu ein Polisi Diogelu Corfforaethol i sicrhau bod gofynion Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 yn cael eu bodloni ac wedi sefydlu gweithredoedd Caethwasiaeth Fodern o fewn Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol
- Wedi sefydlu llwybr gofal dioddefwyr yn ein rôl fel ymatebwr cyntaf.
- Wedi gweithio mewn partneriaeth fel aelod gweithredol o Bartneriaeth Caethwasiaeth Fodern Gogledd Cymru.

During 2018-2019, we have:

Signed up to the Code of Practice: Ethical Employment in Supply Chains

- Started the process of reviewing our supply chains to identify high risk areas
- Commenced a review of contract and tender clauses
- Ensured our Whistleblowing Policy is fit for purpose
- Provided training on Modern Slavery in accordance with the Corporate Safeguarding Training Framework including the development of a regional e-learning module
- Produced a Corporate Safeguarding Communications plan that includes Modern Slavery awareness raising
- Embedded ethical procurement in to our pre-qualification assessment of suppliers
- Reviewed our Corporate Safeguarding Policy to ensure the requirements of the Modern Slavery Act 2015 are met and embedded Modern Slavery actions within the Corporate Safeguarding Action Plan
- Implemented a victim care pathway in our role as first responder.
- Worked in partnership as an active member of the North Wales Modern Slavery Partnership.

Yn ystod 2019-20 rydym yn bwriadu:

- Parhau i adeiladu ar ein hymrwymiadau yn ein **Strategaeth Comisiynu, Caffael a Rheoli Contract 2018-2021** a **Chynllun Gweithredu** ein **Cod ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi** i sicrhau bod arferion moesegol yn cael eu prif ffrydio yn y broses gaffael ac yn y modd rydym yn rheoli contractau.

- Penodi Cefnogwr Gwrth-gaethwasiaeth a Chyflogaeth Foesegol

- Parhau i ddarparu a monitro hyfforddiant Caethwasiaeth Fodern yn unol â'n Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Corfforaethol

- Parhau i godi ymwybyddiaeth am Gaethwasiaeth Fodern yn unol â'n Cynllun Cyfathrebu

- Parhau i weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau partner o Bartneriaeth Caethwasiaeth Fodern Gogledd Cymru, i rannu arfer da a bwrw ymlaen â'r agenda.

- Diweddaru a chyhoeddi ein Datganiad Caethwasiaeth Fodern yn flynyddol, er mwyn nodi cynnydd ein gweithredoedd

During 2019-20 we plan to:

- Continue to build upon our commitments in our **Commissioning Procurement and Contract Management Strategy 2018-2021** and **our Code of Practice: Ethical Employment in Supply Chains Action Plan** to ensure that ethical practices are mainstreamed in the procurement process and in the way we manage contracts.

- Continue to provide and monitor Modern Slavery training in accordance with our Corporate Safeguarding Training Framework

- Continue to raise awareness of Modern Slavery in line with our Communications Plan

- Continue to work in partnership with partner organisations from the North Wales Modern Slavery Partnership, to share good practice and drive the agenda.

- Update and publish our Modern Slavery Statement annually, to reflect progress on our actions